I S - D D E D D F W R I A E T H

# LlC21-83

# DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL (CYMRU) 2006

## Cyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Ffioedd am Geisiadau) (Cymru) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *1 Hydref 2021* |
| *Yn dod i rym* | *2 Hydref 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 85 a 203(9) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 85(3) o'r Ddeddf honno â'r sefydliadau hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol ac y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli'r personau sy'n darparu gwasanaethau fferyllol, a'r sefydliadau hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol ac y mae'n ymddangos eu bod yn cynrychioli Byrddau Iechyd Lleol, yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

### Enwi, cymhwyso a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Gwasanaethau Fferyllol (Ffioedd am Geisiadau) (Cymru) 2021.

(2) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Fyrddau Iechyd Lleol.

(3) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 2 Hydref 2021.

### Dehongli

**2.**—(1) Mae unrhyw gyfeiriad at reoliad â rhif yn y Cyfarwyddydau hyn yn gyfeiriad at y rheoliad yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol

(**1**) 2006 p. 42.

(Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020([1]) sy'n dwyn y rhif hwnnw.

(2) Mae i ymadroddion a ddefnyddir yn y Cyfarwyddydau hyn ac yn Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Fferyllol) (Cymru) 2020 yr un ystyr ag yn y Rheoliadau hynny.

**Ffioedd**

**3.**—(1) Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol godi'r ffi benodedig ym mharagraff (2) ar bob person sy'n gwneud cais o dan reoliad 15(1) (ceisiadau i gynnwys person mewn rhestr fferyllol neu i ddiwygio rhestr fferyllol) neu reoliad 18 (ceisiadau am gydsyniad rhagarweiniol ac effaith cydsyniad rhagarweiniol), ac eithrio—

(a) nad oes ffi yn daladwy gan berson mewn cysylltiad â chais o dan reoliad 15(1)(b)(ii) sy'n bodloni'r amodau yn rheoliad 21(1) (ceisiadau sy'n ymwneud ag adleoli dros dro); a

(b) nad oes ffi yn daladwy gan berson sydd wedi cael cydsyniad rhagarweiniol o dan reoliad 18 ac sydd wedyn yn gwneud cais dilynol o dan reoliad 15(1)(a) neu 15(1)(b)(i) sy'n bodloni gofynion rheoliad 18(6).

(2) Y ffi benodedig yw £600, ac eithrio pan fo paragraff (3) yn gymwys.

(3) Yn achos ceisiadau o dan reoliad 15(1)(a), (b)(i) neu (ii), pan fo'r amodau yn rheoliad 22(1) (ceisiadau sy'n ymwneud â newid perchnogaeth) wedi eu bodloni, y ffi benodedig yw—

(a) £60, os yw'r ceisydd eisoes wedi ei gynnwys yn rhestr fferyllol y Bwrdd Iechyd Lleol mewn cysylltiad â mangreoedd eraill; neu

(b) £100, os nad yw'r ceisydd eisoes wedi ei gynnwys yn rhestr fferyllol y Bwrdd Iechyd Lleol mewn cysylltiad â mangreoedd eraill.

**Dilysrwydd ceisiadau pan fo ffi yn daladwy**

**4.** Pan fo Bwrdd Iechyd Lleol yn codi ffi mewn perthynas â chais yn rhinwedd y Cyfarwyddydau hyn, dim ond os yw'r ffi honno wedi ei thalu y mae'r cais hwnnw yn ddilys.

**Dirymu Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Ffioedd am Geisiadau) (Cymru) 2013**

**5.** Mae Cyfarwyddiadau Gwasanaethau Fferyllol (Ffioedd am Geisiadau) (Cymru) 2013([1]) wedi eu dirymu.

---

([1]) O.S. 2020/1073 (Cy. 241).



**Llofnodwyd gan Alex Slade, Dirprwy Gyfarwyddwr, Gofal Sylfaenol a Gwyddor Iechyd o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru**

**Dyddiad: 1 Hydref 2021**

---

(**1**) 2013 Rhif 9.